**LGH-14-01 (min)**

# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Iau 15 Tachwedd 2001 |
| **Amser:** | 1.30pm hyd 3.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| (Cadeirydd) | |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| (Dirprwy Weinidog) | |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| *Yn bresennol:* | |
| Sarah Stone | Age Concern |
| Angela Pulman | Menter Gymunedol Cymru |
| Cath Beaudette | Menter Gymunedol Cymru |
| Hayley Fidler | Materion Cymunedol |

| | |
|---|---|
| Joanne Jones | Materion Cymunedol |
| Sarah Lloyd Jones | People and Work Unit |
| Pat Dunmore | People and Work Unit |
| Constance Adams | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys |
| Lottie Miller | Cymdeithas Tai y Rhondda |
| Gaynor Jones | Cymdeithas Tai y Rhondda |
| Yr Athro Dave Adamson | Ymgynghorydd Arbenigol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Roger Chaffey | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon**

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Edwina Hart a William Graham.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau isod:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn Gadeirydd y Comisiwn Digartrefedd;
- Dywedodd Janet Davies ei bod yn Aelod o Gyngor Cymuned Llanhari;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe ac yn feddyg teulu;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adolygiad o Bolisi Adfywio Cymunedol: Sesiwn Ymgynghori ar Lafar**

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i wneud eu cyflwyniadau gerbron y Pwyllgor.

3.2 Amlinellodd Sarah Stone o Age Concern bwysigrwydd pobl hn i gymunedau ac adfywio cymunedol ar hyn o bryd a'u potensial i gyfrannu. Dywedodd nad oedd cynlluniau adfywio cymunedol wedi rhoi sylw digonol hyd yma i bresenoldeb pobl hn sy'n byw mewn cymunedau. Chwaraeai pobl hn rôl holl-bwysig o fewn cymunedau.

3.3 Tynnodd sylw at sawl enghraifft o sut yr oedd pobl hn yn cyfrannu at gynlluniau cymunedol. Canolbwyntiai hyn yn bennaf ar waith rhwng cenedlaethau lle mae pobl hn yn gweithio'n agos gyda phlant a phobl ifanc. Cydnabyddid bod gwaith rhwng cenedlaethau yn chwarae rhan bwysig mewn adfywio ac adnewyddu cymunedol.

3.4 Roedd yr angen i gynnwys cymunedau yn y broses adfywio yn sylfaenol bwysig. Byddai cynnwys pobl ym mhob cam o'r broses adfywio, o'r ymgynghori a'r cynllunio i'r gweithredu, yn peri i gymunedau gymryd meddiant o'r strategaethau yr oeddynt wedi helpu i'w datblygu. Rhaid oedd cael y math hwn o ymdeimlad o berchenogaeth cyn y byddid yn llwyddo.

3.5 Ailadroddodd Sarah Stone fod angen i'r Cynulliad roi sylw i sut y mae pobl hn yn cael eu cynnwys yn y broses o adfywio cymunedau. Roedd yn bwysig edrych ar bobl hn fel adnodd gwerthfawr o fewn cymunedau, nid dim ond fel grp o bobl sydd ag anghenion.

Tynnodd Gaynor Jones o Gymdeithas Tai y Rhondda sylw at y ffordd y mae rôl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn newid o fod yn ddim ond darparwyr tai i fod â rhan ragweithiol mewn adfywio cymunedol. Teimlai y gallai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig chwarae rhan fwy canolog mewn strategaethau adfywio yng Nghymru a chynorthwyo ymhellach ag adfywio cymdeithasol, economaidd a chymunedol.

3.6 Roedd polisïau dyrannu tai cymdeithasol yn aml yn golygu bod nifer fawr o bobl sydd heb lawer o adnoddau yn cael eu cartrefu ar ystadau neilltuol. Roedd yr ystadau hynny yn aml yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, sydd wedi'u hallgáu fwyaf o gymdeithas. Rhaid oedd canfod ffyrdd priodol o gydweithio â thenantiaid er mwyn adfywio cymunedau o'r fath yn llwyddiannus.

3.7 Pwysleisiodd Gaynor Jones yr angen i annog cyfranogiad o du tenantiaid ac i weithio gyda thenantiaid mewn llawer o gymunedau sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol. Roedd y polisïau cyfranogiad tenantiaid a fabwysiadwyd gan Gymdeithas Tai y Rhondda wedi ei galluogi i sefydlu llwybrau sy'n treiddio i gymunedau a byddai hynny, yn ei dro, yn help i wireddu'r agenda adfywio cymunedol.

3.8 Er mwyn gwireddu'r agenda adfywio cymunedol ehangach, roedd Cymdeithas Tai Y rhondda wedi mabwysiadu ffyrdd gwahanol o weithio a defnyddio ei hadnoddau. Ymysg yr enghreifftiau o hyn roedd cyflogi llafur lleol i adfywio ystad cyngor yn Nhonyrefail a gweithio gyda'r People and Work Unit i hyfforddi pobl ifanc sydd wedi'u dadrithio mewn sgiliau adeiladu.

3.9 Teimlai Gaynor Jones fod angen cydnabod gwaith Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ym maes adfywio cymunedol, a'i ddatblygu ymhellach. Amlinellodd sawl ffactor a ddangosai allu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gyfrannu tuag at fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a

helpu i adfywio cymunedau difreintiedig. Ymysg y ffactorau hyn roedd y ffaith eu bod wedi’u hen sefydlu yn y gymuned a bod ganddynt berthynas eisoes â phobl sydd wedi’u hallgáu’n gymdeithasol.

3.10 Pwysleisiodd Lottie Miller yr angen i ddatblygu trefn effeithiol o weithio drwy bartneriaeth er mwyn bwrw ymlaen ag adfywio cymunedol. Awgrymodd fod llwyddiant strategaethau datblygu cymunedol uchelgeisiol yn dibynnu ar sefydlu partneriaethau cymunedol amrywiol. Yn ogystal, roedd partneriaethau â thenantiaid yn hanfodol bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant cynlluniau adfywio cymunedol.

3.11 Byddai'n rhaid wrth y ffactorau canlynol er mwyn sefydlu partneriaeth lwyddiannus:

- Ymroddiad gwirioneddol a pharodrwydd i fod yn agored i newid
- Rhannu'r un nodau a'r un weledigaeth
- Hyfforddiant ar y cyd i'r partneriaid i gyd
- Dull cynhwysol sy'n hwyluso meithrin gallu
- Perthynas agored a gonest
- Rhannu gwybodaeth
- Cydnabod rôl allweddol gweithwyr llawr gwlad
- Hyblygrwydd

3.12 Amlinellodd Angela Pulman o Fenter Gymunedol Cymru bwysigrwydd modelau datblygu economaidd o fewn y broses adfywio cymunedol. Tanlinellodd yr angen i helpu cymunedau i ddod yn annibynnol yn gymdeithasol ac economaidd. Y ffordd orau o gyflawni hynny fyddai drwy weithio drwy bartneriaeth, gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol, cyrff statudol eraill a'r sector gwirfoddol. Roedd y partneriaid hyn yn chwaraewyr allweddol o fewn adfywio cymunedol ond, serch hynny, y gymuned sydd wrth graidd y broses o hyd.

3.13 Teimlid bod diffinio cymunedau yn dasg gymhleth. Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion gwahanol rhwng cymunedau â'i gilydd ac oddi mewn i gymunedau, byddai'n rhaid gweithredu mewn modd sy'n gallu ymaddasu. Awgrymodd nad yw prosiectau datblygu cymunedol mawr yn aml yn rhoi sylw digonol i anghenion y gymuned. Roedd hynny'n wrthgynhyrchiol ac arweiniai yn aml at ragor o anfodlonrwydd o fewn cymunedau.

3.14 Teimlai Angela Pulman fod angen symleiddio'r ffynonellau cyllido. Byddai hynny'n ei gwneud yn haws cyrchu atynt, yn enwedig i grwpiau cymunedol bach. Yn ogystal, dylid newid y gwerthuso dilynol fel ei fod yn golygu mwy i aelodau'r gymuned.

3.15 Dywedodd Hayley Fidler o Materion Cymunedol mai ymddiriedaeth a pharch o'r naill ochr a'r llall yw sail perthnasoedd o fewn cynlluniau adfywio cymunedol. Onid oedd y prosesau yn arwain at weithredu cadarnhaol, byddai cymunedau'n mynd yn ddrwgdybus a difater.

3.16 Amlinellwyd manteision gweithio gydag awdurdodau lleol i helpu i gefnogi'r gymuned. Fodd bynnag, codwyd pryderon yngln â'r bwriad i gyflwyno'r system gabinet newydd o lywodraeth leol. Awgrymwyd y byddai hynny'n creu mwy o fiwrocratiaeth, a fyddai'n gwneud yr anawsterau cyfathrebu sy'n bodoli eisoes rhwng llywodraeth leol a chymdeithasau cymunedol yn waeth. Gellid goresgyn hyn drwy wella'r berthynas rhwng aelodau etholedig nad ydynt yn y cabinet a phobl sy'n weithgar o fewn cymunedau lleol.

3.17 Mynegodd Hayley Fidler bryder bod cymunedau'n ansicr sut i weithio gyda chynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd ar lefel leol a chenedlaethol. Ni ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol nac awdurdodau lleol gymryd yn ganiataol bod pawb yn gwybod am y mecanweithiau a'r drefn er mwyn sefydlu cyswllt. O hyrwyddo'r trefniadau hyn yn fwy eang byddid yn helpu cymunedau i gyrchu at wybodaeth, cefnogaeth ac arweiniad.

3.18 Roedd yn bwysig i gymunedau gydnabod eu rôl a'u cyfrifoldebau nhw yn y broses adfywio ac i eraill gydnabod y budd a geir yn ysgogi cymunedau, o rannu gwybodaeth wyneb yn wyneb.

3.19 Ailadroddwyd mor bwysig yw gweithio drwy bartneriaeth. Teimlid bod partneriaethau llwyddiannus yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi sgiliau, profiad, ymroddiad a gwybodaeth grwpiau cymunedol.

3.20 Er bod rhai manteision yn deillio o dargedu cyllid, awgrymodd Hayley Fidler y gallai fod yn niweidiol i ardaloedd cyfagos nad ydynt yn llwyddo i sicrhau dyraniad cyllido. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd y gellid cynnal cynllun ochr yn ochr â'r cyllid a dargedir a fyddai'n caniatáu i gymunedau wneud cais i gronfa fwy cyffredinol. Byddai hyn yn galluogi cymunedau i ennill profiad amhrisiadwy o brosiectau bach, gan ganiatáu i allu dyfu felly ochr yn ochr â'r hyder i reoli prosiectau mwy. Byddai hefyd yn caniatáu gweithredu drwy ddull o'r gwaelod i fyny, lle byddai cymunedau yn pennu eu blaenoriaethau ac yn gosod eu dangosyddion perfformiad eu hunain.

3.21 Yn ogystal, rhaid i gyllid craidd fod ar gael i brosiectau llwyddiannus sy'n bodoli'n barod a dylid cefnogi a chyllido arloesedd ochr yn ochr ag arferion da.

3.22 Pwysleisiodd Sarah Lloyd Jones o'r People and Work Unit yr angen i gydgysylltu adfywio cymunedol â'r strategaethau dysgu gydol oes sy'n cael eu datblygu gan y Cynulliad Cenedlaethol ar hyn o bryd. Dywedodd fod addysg yn ffordd allan o dlodi a bod gwybodaeth yn ffordd o roi grym i gymunedau. Y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cynaliadwyedd o fewn adfywio cymunedol oedd darparu cymhellion i sefydliadau i gyflogi a hyfforddi pobl leol i'w galluogi i chwarae rhan ganolog mewn adfywio cymunedol.

3.23 Roedd yn hanfodol bod strategaethau hyfforddi yn cynnwys prentisiaethau a hyfforddiant sydd ynghlwm â chymwysterau ar lefel briodol er mwyn annog cynaliadwyedd. Roedd nifer gynyddol o gyfleoedd hyfforddi ar gael wedi eu strwythuro o amgylch dysgu modiwlaidd, ond roeddynt yn dal i gael eu darparu ar sail flynyddol, gan ddechrau ym mis Medi. Roedd angen mwy o hyblygrwydd mewn cyfleoedd dysgu i ddarparu ar gyfer dysgwyr newydd a phobl sy'n wynebu pwysau gwaith trymach ar rai adegau na'i gilydd.

3.24 Law yn llaw â'r cynnydd mewn cyfleoedd cyflogi o fewn datblygu ac adfywio cymunedol, o ganlyniad i gynlluniau adfywio cymunedol, byddai angen darparu mwy o hyfforddiant addas ar gyfer staff. Drwy gyflwyno cymhellion i greu swyddi i hyfforddeion ochr yn ochr â swyddi newydd, byddid yn galluogi sefydliadau lleol i hyfforddi pobl leol i arwain prosiectau i'r dyfodol. Byddai angen cyllid digonol ar gyfer y swyddi hyn i hyfforddeion.

3.25 Tanlinellodd Sarah Lloyd Jones yr angen i fabwysiadu ffordd gyfannol o ymdrin ag adfywio cymunedol. Lle nodwyd bod angen adfywio ardal, roedd darparu cymorth i'r gymuned gyfan yn hanfodol.

3.26 Gwnaethpwyd y pwyntiau ychwanegol canlynol:

- Byddai'n rhaid wrth gyllid ychwanegol ar sail tymor-hir wrth weithio gyda'r cymunedau sydd wedi eu hallgáu fwyaf, er mwyn creu canlyniadau effeithiol;
- Byddai'n bwysig cyllido rhaglenni a roddai sylw i anghenion unigolion. Byddai hyn yn cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth annibynnol;
- Er mai awdurdodau lleol yw'r cyfrwng mwyaf effeithiol yn aml i gyflwyno cyllid yn lleol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ysgwyddo'r cyfrifoldeb am fonitro a chefnogi effeithiol i sicrhau bod y cyllid yn cyrraedd y cymunedau sy'n fwyaf eu hangen;
- Roedd yna fanteision o gyflwyno cyllid yn lleol; fodd bynnag, byddai'n bwysig caniatáu i syniadau a dulliau gael eu trawsffrwythloni rhwng ardaloedd gwahanol awdurdodau lleol;
- Rhaid i'r gwasanaethau a ddarparir fod o ansawdd uchel, yn enwedig i unigolion o gymunedau difreintiedig sydd yn aml yn amharod i ymwneud â hyfforddiant neu brosiectau cymunedol.

3.27 Pwysleisiodd Constance Adams o Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys yr angen am raglenni adfywio cymunedol ar wahân i Rhoi Cymunedau'n Gyntaf. Dywedodd nad oedd ardaloedd gwledig a thenau eu poblogaeth wedi llwyddo i gael eu cynnwys yn y rhaglenni Rhoi Cymunedau'n Gyntaf am nad oeddynt yn cael eu cofrestru ar y Mynegrif Amddifadedd Lluosog. Awgrymwyd y dylid cydnabod ardaloedd gwledig fel Cymunedau Buddiant.

3.28 Teimlid bod cyfranogiad ac ymwneud trigolion lleol, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol yn sylfaenol bwysig i lwyddiant adfywio cymunedol. Roedd yr angen i rymuso cymunedau yn holl-bwysig. Byddai hynny'n golygu sicrhau bod aelodau cymunedau yn cael y cyfle i feithrin sgiliau priodol ac i gyrchu at adnoddau digonol.

3.29 Amlinellodd Constance Adams y rôl allweddol a chwaraeir gan fudiadau gwirfoddol yn y broses adfywio cymunedol. Roedd angen cynnig cefnogaeth i fudiadau yn y sector gwirfoddol i'w

galluogi i gynyddu lefelau staff a gwella systemau rheoli. Yn ogystal, dylid darparu cyllid hirdymor, sydd wedi ei warantu.

3.30 Mewn ymateb i gwestiynau'r Aelodau, gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol:

- Roedd cyllid cynaliadwy er mwyn meithrin gallu a pherthnasoedd yn hanfodol. Nid oedd y dyraniad cyllid Ewropeaidd tair blynedd, a oedd yn cynnwys targedau blynyddol, yn aml yn cymryd natur gymhleth meithrin gallu a pherthnasoedd i ystyriaeth. Awgrymwyd y dylid ystyried cyllid am gyfnod o bum mlynedd ar y cyd â ffyrdd mwy soffistigedig o fesur canlyniadau. Byddai angen i'r strwythurau a'r mesurau cyllid adlewyrchu'r amser a gymerir i feithrin perthnasoedd, yn enwedig yn ystod y flwyddyn weithredu gyntaf.

- Roedd yna rywfaint o gefnogaeth i'r syniad y dylai cyllid gael ei weinyddu gan y Cynghorau Gwirfoddol Lleol, oherwydd eu gwybodaeth leol. Teimlid mai'r Cynghorau Gwirfoddol Lleol sydd yn y sefyllfa orau i nodi blaenoriaethau o fewn cymunedau lleol.

- Tynnwyd sylw at y cynllun grant SPIRIT a gynhelir gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys fel enghraifft o arfer da sy'n caniatáu i fudiadau a grwpiau lleol yn y sector gwirfoddol gyrchu at gyllid. Roedd y cynllun yn fodd i symleiddio'r broses gyllido. Yn ogystal, ceisiai feithrin gallu drwy hyrwyddo sgiliau arbenigol ym maes dyfarnu a gweinyddu grantiau a chyfuno hynny â gwybodaeth leol.

- Dylid dyfarnu cyllid ar sail angen prosiectau unigol. Y ffordd orau o ymdrin â'r ystod anghenion amrywiol ymysg prosiectau fyddai drwy sicrhau bod y drefn gyllido mor hyblyg â phosibl.

- Dylid ymgorffori cyllid ar gyfer meithrin gallu o fewn ceisiadau cyllido prosiectau unigol.

- Roedd sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi addas ar gael i bobl leol i roi iddynt y sgiliau a'r cymwysterau i symud adfywio cymunedol yn ei flaen yn hanfodol. Teimlid y byddai mynediad at hyfforddiant addas, achrededig, yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfleoedd gwaith i bobl leol. Byddai hynny yn ei dro yn hyrwyddo twf economaidd.

- Roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ymgymryd â rôl strategol fwy eang o ran mynd i'r afael ag amddifadiad cymdeithasol a helpu i adfywio cymunedau. Roedd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn awyddus i adeiladu ar y gweithgareddau presennol a denu cefnogaeth i'w gwaith ym maes adfywio cymunedol. Roedd rôl Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ym maes buddsoddi cymunedol ac adfywio cymdogaethau wedi ei chofnodi'n fanwl mewn cyhoeddiadau diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree.

- Roedd cyfranogiad llwyddiannus o blith tenantiaid yn hwb i feithrin gallu ac yn anogaeth i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, y gellid eu defnyddio er budd y gymuned.

- Roedd yn hanfodol bod strwythurau wedi eu sefydlu i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, llywodraeth leol a sefydliadau llawr gwlad. Roedd yn holl-bwysig bod mudiadau llawr gwlad yn gallu cyrchu at wybodaeth a fyddai o gymorth iddynt yn eu gwaith. Nid oedd gan lawer o awdurdodau lleol strategaeth datblygu cymunedol gydlynol. Enghraifft o hyn oedd nad oes gan awdurdodau lleol un pwynt cyswllt i fudiadau llawr gwlad sy'n ceisio gwybodaeth neu gyngor am adfywio cymunedol. Roedd yn bwysig codi ymwybyddiaeth o fewn awdurdodau lleol, hyrwyddo gwaith rhyngadrannol ac annog hyfforddiant.

- Roedd rhai pobl o'r farn bod yr egwyddor ‘tri thraean’ wrth weithio drwy bartneriaeth yn rhy haearnaidd. Gallai cyflwyno mwy o hyblygrwydd o fewn arferion gwaith helpu i annog gweithio drwy bartneriaeth. Ymysg yr enghreifftiau posibl yr oedd trefnu cyfarfodydd ar adegau sy'n hwylus i'r aelodau i gyd a darparu adnoddau i dalu costau trafnidiaeth. Roedd yr angen am bartneriaethau gwirioneddol a chydradd, gyda chlod yn cael ei roi i bob sector, yn hanfodol bwysig.

- Wrth adfywio cymunedau rhaid ystyried yr amrywiaeth ddiwylliannol a rhoi sylw digonol i ddwyieithrwydd.

3.34 Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr i gyd am eu cyflwyniadau ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.